Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

2. Rheoli eich sefydliad

2.10 Yr iaith Gymraeg – cyd-destun cyfreithiol

Cefndir

Cafodd yr egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail bod y ddwy iaith yn gyfartal ei sefydlu a'i chynnwys yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Ar ôl pasio Deddf yr Iaith Gymraeg, ffurfiwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg a rhoddwyd iddo'r cyfrifoldeb dros hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i **gyrff cyhoeddus** ddatblygu cynllun iaith dan oruchwyliaeth Bwrdd yr Iaith, yn nodi sut y bydd y corff yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Diffinnir Cyrff Cyhoeddus yn adran 6 o'r Ddeddf, sy'n cynnwys rhestr ddisgrifiadol ac yn rhoi hawl ychwanegol i'r Ysgrifennydd Gwladol i nodi mwy o gyrff cyhoeddus drwy is-ddeddfwriaeth. Mae'n ofynnol i gyrff y Goron lunio cynlluniau hefyd. Nid yw'n ofynnol drwy statud i gyrff gwirfoddol lunio cynllun iaith, fodd bynnag, mae'n bosib y bydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf dan unrhyw gontract y byddant yn ei wneud â chorff cyhoeddus – mae hyn yn arferol bellach (gweler y sylwadau ar adran 16 o'r Ddeddf isod). Yn yr achos hwn bydd yn ofynnol fel rheol i'r corff gwirfoddol gydymffurfio â chynllun iaith y corff cyhoeddus y mae ganddo gontract gydag ef.

Y ffordd hawddaf o wneud hyn yw drwy fabwysiadu cynllun priodol sy'n sicrhau bod y sefydliad yn cyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg dan y contract. Byddai'r cynllun hwn yn nodi pa wasanaethau y bwriadwch eu cynnig yn ddwyieithog, e.e. llinellau cymorth neu ganolfannau gwybodaeth, ac yn nodi sut y byddwch yn mynd ati i wneud hyn.

Dan adran 16 o'r Ddeddf, dylai cynlluniau iaith Gymraeg gynnwys ymrwymiad i sicrhau bod amodau yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg yn cael eu cynnwys gydag unrhyw grant a gynigir. Cwblhaodd Bwrdd yr Iaith ymgynghoriad cyhoeddus yn Awst 2006 ar y ddogfen ddrafft *Dyfarnu Grantiau: Materion yn ymwneud â'r Gymraeg*. Mae'r canllawiau'n dal i gael eu trafod, ond dan 'Egwyddorion cyffredinol' nodir 'Wrth ddyfarnu grantiau, dylai cyrff cyhoeddus sicrhau bod y gweithgaredd a gefnogir gan y grant yn adlewyrchu'r egwyddor o gydraddoldeb. Ariennir cyrff cyhoeddus o'r pwrs cyhoeddus a daw'r grantiau y maent yn eu dosbarthu o arian cyhoeddus. Yn hynny o beth, dylai'r egwyddor o gydraddoldeb ddilyn yr arian hwnnw'. Efallai hefyd y bydd materion ieithyddol yn amodau mewn prosiectau grant Ewropeaidd a ddosberthir gan Lywodraeth y Cynulliad rhwng 2007-13. Bydd angen i gyrff cyhoeddus sy'n darparu arian cyfatebol i brosiectau grant Ewropeaidd sicrhau bod prosiectau'n adlewyrchu natur ieithyddol y gymuned neu'r cwsmeriaid yn briodol.

Cyhoeddiadau pwysig

Yn Awst 2005 cyhoeddodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg *Dyfodol y Gymraeg – cynllun strategol.* Mae'r ddogfen yn amlinellu'r hyn y cred y Bwrdd sydd angen ei gyflawni er mwyn gweld 'y Gymraeg yn ffynnu mewn Cymru wirioneddol ddwyieithog' ac yn enwi un ar ddeg maes sydd i gael blaenoriaeth. Ymhlith y rhain y mae defnyddio'r Gymraeg gan bobl ifanc, hyrwyddo a hwyluso'r defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, cynlluniau iaith Gymraeg a datblygu a darparu gwasanaethau yn y Gymraeg, normaleiddio dwyieithrwydd a hybu hawliau ieithyddol fel rhan o'r maes cyfle cyfartal.

Ceir croesgyfeiriadau at *Iaith Pawb*, cynllun manwl Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer creu Cymru ddwyieithog (cyhoeddwyd yn 2003), ar gyfer pob blaenoriaeth.

Hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae cyrff gwirfoddol wedi dod i sylweddoli pwysigrwydd hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae hyn yn cadarnhau gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a amlinellir yng Nghynllun y Sector Gwirfoddol (2000), sy'n cydnabod bod gan bawb hawl i gymryd rhan ac i gael ei gynnwys ym mywyd eu cymuned drwy wirfoddoli. Er mwyn parchu cydraddoldeb a sicrhau cynhwysiant cymdeithasol yma yng Nghymru, mae sefydliadau'n gwneud mwy a mwy o ymdrech i weithredu'n ddwyieithog. Mae cyhoeddi dogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog* yn 2003 a'i ymrwymiad i wneud Cymru'n wlad wirioneddol ddwyieithog hefyd wedi hybu manteision dwyieithrwydd.
Er mai'r brif ddadl dros hybu amrywiaeth a chydraddoldeb yw sicrhau cyfiawnder cymdeithasol, drwy weithredu'n ddwyieithog gall eich sefydliad hefyd elwa drwy'r canlynol:

- Mabwysiadu arferion da – rhoi dewis gwirioneddol i gleient o ran yr iaith a ddefnyddir yw hanfod ymarfer da.
- Gwella ei ddelwedd fel sefydliad Cymreig.
- Adlewyrchu'r gymuned y mae'n eu gwasanaethu.
- Apelio at sbectrwm ehangach o wirfoddolwyr.
- Gwella ei siawns o ddenu arian gan gyrff sy'n edrych yn ffafriol ar sefydliad sydd â pholisi o ddenu gwirfoddolwyr o drawstoriad o'r gymdeithas.
- Gwella ansawdd ei wasanaethau i'r cyhoedd.

Datblygiadau yn y dyfodol

Ym Mai 2007, yn dilyn etholiadau'r Cynulliad bydd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn dod yn gwbl weithredol. Bryd hynny bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cael eu gwahanu'n ffurfiol ac yn gyfreithlon, gyda'r naill yn ymgymryd â'r rôl ddeddfwriaeth a'r llall yn ymgymryd â'r rôl weithredol. O Fedi 2007 ymlaen bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gallu cael mwy o bwerau deddfu dros faterion a gymeradwyir gan y Senedd â phwerau deddfu llawn os cymeradwyir hynny mewn refferendwm. Yn ychwanegol at hyn, rhaid i Weinidogion Cynulliad Cymru fabwysiadu strategaeth yn nodi sut y bwriadant hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a rhaid iddynt fabwysiadu cynllun iaith Gymraeg cynhwysfawr.

Fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Cymru, 'the Assembly must, in the conduct of Assembly proceedings, give effect, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality'.

Deddfwriaeth arall y dylid ei hystyried

Deddf Plant 1989

Wrth wneud penderfyniadau yn ymwneud â lles plentyn, rhaid i'r llys ystyried cefndir y plentyn. Mae hyn yn cynnwys cefndir diwylliannol y plentyn. Pan fo awdurdod lleol yn gyfrifol am ofal plentyn, rhaid iddo roi ystyriaeth briodol i gefndir crefyddol, hiliol, diwylliannol ac ieithyddol y plentyn a darparu gwasanaethau priodol sy'n sensitif i'r ffactorau hyn.

Gwneir darpariaethau tebyg ar gyfer cartrefi plant cofrestredig a'r rhai hynny sy'n gofalu am blant dan wyth oed.

Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001

Rôl Comisiynydd Plant Cymru yw helpu i wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yng Nghymru

- yn ddiogel rhag niwed a chamdriniaeth
- yn cael y cyfleoedd a'r gwasanaethau angenrheidiol y maent yn eu haeddu
- yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi
- yn cael llais yn eu cymunedau
- yn gallu chwarae rhan cyn llawned â phosib mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt
- yn gwybod am eu hawliau a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae gan y Comisiynydd Plant ddyletswydd i weithredu Cynllun Iaith Gymraeg.

Deddf Iechyd Meddwl 1983

Wrth geisio penderfynu a ddylid gorfodi claf i fynd i ysbyty meddwl, rhaid iddo ef neu hi gael ei gyfweld mewn 'modd addas'. Er nad yw'r Ddeddf yn nodi'n benodol beth fyddai 'modd addas', yn ôl y cod ymarfer da sydd wedi ei gyhoeddi mae'r gallu i ddeall yr iaith a ffefrir gan y claf yn hanfodol.

Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000

Wrth recriwtio staff i swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn cael ei hystyried yn hanfodol, dylai sefydliadau fod yn ymwybodol o oblygiadau Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976/2000.

Os yw'r gallu i siarad Cymraeg yn amod hanfodol er mwyn cyflawni'r swydd, dylai'r sefydliad allu dangos, mewn modd gwrthrychol, y gellir cyfiawnhau hyn.

Pa un a yw'r gallu i siarad Cymraeg yn cael ei ystyried yn hanfodol neu'n ddymunol, y peth pwysicaf un yw bod yn wrthrychol, fel bod pob penodiad yn cael ei wneud yn deg ac yn gyson.

Deddf Cydraddoldeb 2006

Deddf i wneud darpariaeth ar gyfer sefydlu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol; diddymu'r Comisiwn Cyfle Cyfartal, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a'r Comisiwn Hawliau Anabledd; gwneud darpariaeth yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail crefydd neu ddaliadau; galluogi gwneud darpariaeth yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail

cyfeiriadedd rhywiol; cyflwyno dyletswyddau yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail rhyw i bobl sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus; diwygio Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995; a dibenion cysylltiedig.

Bydd y Comisiwn yn sefydlu pwyllgor gwneud penderfyniadau a elwir yn Bwyllgor Cymru.

Strategaethau eraill y dylid eu hystyried

Iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog 2003

Mae'r ddogfen hon gan Lywodraeth Cynulliad Cymru'n cynnwys fframwaith polisi cenedlaethol, gan ddiffinio'n glir ei rôl wrth ddarparu arweiniad gwleidyddol a strategol, yr amcanion sydd i'w cyflawni a'r strategaethau cyffredinol er mwyn sicrhau 'cenedl wirioneddol ddwyieithog'.

Strategaeth Ieuenctid Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2006

Mae'r strategaeth yn ceisio cynyddu defnydd cymdeithasol pobl ifanc 11-25 oed o'r Gymraeg. Mae gan y sector gwirfoddol rôl i'w chwarae wrth ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg ledled Cymru. Mae'r strategaeth yn nodi er nad oes cyfrifoldeb statudol ar y sectorau gwirfoddol a phreifat 'i gynnig dewis iaith yn eu gwasanaethau i berson ifanc dylid annog hyn fel arfer da. Mewn achosion lle mae cyrff gwirfoddol yn derbyn arian cyhoeddus mae cyfrifoldeb ar y cyllidwr i sicrhau y gweithredir gofynion ei Gynllun Iaith Gymraeg'.

Dyfodol y Gymraeg – Cynllun Strategol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg

Yn Awst 2005 cyhoeddodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg y ddogfen bwysig *Dyfodol y Gymraeg – cynllun strategol.* Mae'r ddogfen yn amlinellu beth y cred y Bwrdd sydd angen ei gyflawni er mwyn gweld 'y Gymraeg yn ffynnu mewn Cymru wirioneddol ddwyieithog' ac yn enwi un ar ddeg maes sydd i gael blaenoriaeth. Ymhlith y rhain y mae defnyddio'r Gymraeg gan bobl ifanc, hyrwyddo a hwyluso'r defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, cynlluniau iaith Gymraeg a datblygu a darparu gwasanaethau yn y Gymraeg, normaleiddio dwyieithrwydd a hybu hawliau ieithyddol fel rhan o'r maes cyfle cyfartal.

Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg

Dylai'r ddogfen hon gael ei darllen gan bawb sydd â diddordeb mewn prosiectau TG i'w defnyddio yng Nghymru, neu gan y rhai sydd â chyfrifoldeb am brosiectau o'r fath – yn rheolwyr, yn ddatblygwyr ac yn ddefnyddwyr fel ei gilydd gan ei bod yn cynnig canllawiau ymarferol ar gyfer gweithredu systemau'n ddwyieithog.

Mwy o wybodaeth

Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Ffôn: 029 2087 8000
post@bwrdd-yr-iaith.org.uk
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr
Y Mwnt, 18 Heol y Frenhines, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1JT
Elusen Gofrestredig *1062144*

Ffôn: 01267 245555 info@cavs.org.uk
Ffacs: 01267 245500 www.cavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:15/06/2007

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk